

# AMODAU SAFONOLAM DRWYDDED SGIP

DEDDF PRIFYRDD 1980 : ADRAN 139

## STANDARD CONDITIONS FOR A SKIP LICENCE

THE HIGHWAYS ACT 1980 : SECTION 139



<p><b>1. Ffi na ellir ei ad-dalu</b> (i) £67 fesul sgip (misol) – cais cychwynnol</p> <p><b>Dull Talu :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Drwy ddefnyddio porth hunan wasanaeth a gwneud taliad gyda Cherdyn Debyd neu Gredyd.</li> </ul>	<p><b>1. Non-refundable Fee</b> (i) £67 per skip (monthly) – initial application</p> <p><b>Payment Method :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• By using the self service portal and making payment with a Debit or Credit Card.</li> </ul>
<p><b>2. Estyniad(au) i'r drwydded</b> (i) £67 fesul sgip (misol) – ffi na ellir ei ad-dalu</p> <p><b>Dull Talu :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trwy ffonio (01766) 771000 (Galw Gwynedd) rhwng 9:00yb a 5:00yh a gwneud taliad gyda Cherdyn Debyd neu Gredyd. .</li> </ul>	<p><b>2. Extension(s) to the licence</b> (i) £67 per skip (monthly) – non-refundable fee</p> <p><b>Payment Method :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• By telephoning 01766 771000 (Galw Gwynedd) between 9:00am and 5:00pm and making payment with a Debit or Credit Card.</li> </ul>
<p><b>3. Rhaid i'r Ymgeisydd :</b></p> <p>(a) Cwblhau y cais o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cychwyn gofynnol y drwydded.</p> <p>(b) Peidio adneuo'r sgip ar y Briffordd hyd nes y byddwch wedi derbyn y drwydded.</p>	<p><b>3. The Applicant Must :</b></p> <p>(a) Complete the application at least 5 working days before the required commencement date of the licence.</p> <p>(b) Not deposit the skip on the Highway until you have received the licence.</p>
<p><b>4. Lleolir y sgip fel bod yr ochrau hirach yn gyfochrog ac ymyl y ffordd gerbydau, y droedffordd neu'r ymyl fel nad yw'n amharu ar ddraeniad arwyneb y briffordd nac yn rhwystro mynediad i unrhyw dwll archwilio neu gyfarpar unrhyw Ymgwymerwr Statudol.</b></p>	<p><b>4. The skip shall be positioned so that its longer sides are parallel to the edge of the carriageway, footway or verge so that it does not impede the surface water drainage of the highway nor obstruct access to any manhole or the apparatus of any Statutory Undertaker.</b></p>
<p><b>5. Bydd lleoliad gwirioneddol y sgip neu sgipiau yn cael ei gytuno gyda'r swyddog awdurdodedig o'r Cyngor, er mwyn sicrhau bod yr anghyfleustra lleiaf i dreigl traffig cerbydau a cherddwyr. Rhaid i'r ymgeisydd gadw at unrhyw reolaeth traffig safle benodol y mae'r awdurdod yn ei osod, gallai unrhyw ddiffyg cydymffurfio wneud y drwydded yn annilys.</b></p>	<p><b>5. The actual siting of the skip or skips shall be agreed with the authorised officer of the Council, so as to ensure the minimum inconvenience to the passage of traffic both vehicular and pedestrian. The applicant must adhere to any site-specific traffic management requested by the authority, any non-compliance could render the licence invalid.</b></p>
<p><b>6. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio Cyngor Gwynedd yn erbyn unrhyw atafaeliadau, gweithredoedd, achosion, hawliadau, gorchmynion, cost, iawndal a threuliau y gellir eu codi neu ei wneud yn ei erbyn oherwydd unrhyw fater a allai godi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r caniatâd hwn. Y lleiafswm derbynnyol ar gyfer Gorchydd Atebolrwydd Cyhoedd yw £10 miliwn.</b></p>	<p><b>6. The applicant will indemnify Cyngor Gwynedd against any distresses, actions, proceedings, claims, demands, costs, damages and expenses which may be levied, brought or made against it by reason of any matter which may rise directly or indirectly as a result of this permission. The minimum Public Liability Limit of Indemnity required is £10 million.</b></p>
<p><b>7. Nodwch, os bydd eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn dod i ben o fewn y cyfnod a gymeradwywyd y drwydded, eich cyfrifoldeb chi yw adnewyddu'r yswiriant fel ei bod yn cydfynd a'r polisi blaenorol. Bydd angen anfon copi o'r polisi newydd i Cyngor Gwynedd. Os na fyddwn yn derbyn y polisi adnewyddu, bydd y drwydded yn annilys ar ddyddiad gorffen y polisi blaenorol.</b></p>	<p><b>7. Please note that if your public liability insurance expires within the term of the licence it is your responsibility to renew the insurance so that it runs concurrent with the previous policy. Proof of the renewal must be sent to Cyngor Gwynedd as soon as possible. It should be noted that if not received the licence would be deemed invalid.</b></p>
<p><b>8. Bydd yr ymgeisydd yn atebol am unrhyw ddifrod i strwythur y briffordd a/neu i gyfarpar yr Ymgwymerwr Statudol o ganlyniad i osod y sgip ar y briffordd a fydd yn gyfrifol am ad-dalu Cyngor Gwynedd neu ei Asiant am y costau gwirioneddol o atgyweirio unrhyw ddifrod.</b></p>	<p><b>8. The applicant will be held liable for any damage to the highway structure and/or Statutory Undertakers apparatus resulting from the deposit of skips on the highway and will be responsible for reimbursing Cyngor Gwynedd or its Agent for the actual costs of making good any damage.</b></p>
<p><b>9. Pan fydd mwy nag un sgip ar y briffordd ar unrhyw un adeg, bydd rhaid lleoli pob sgip mor agos â phosib i'w gilydd, ond nid mor agos i achosi rhwystr i fynediad unrhyw eiddo, oni bai y bydd preswylwr yn eiddo hwnnw yn rhoi caniatâd ysgrifenedig.</b></p>	<p><b>10. Where more than one skip is on the highway at any one time, each skip shall be positioned as closely as possible to each other, but not so as to obstruct access to any premises unless consent of the occupier of those premises has been obtained.</b></p>
<p><b>11. Ni fydd unrhyw sgip yn fwy na 5 metr o hyd wrth 2 fetr o led.</b></p>	<p><b>11. No skip shall exceed 5 meters in length by 2 meters in width.</b></p>
<p><b>12. Bydd pob sgip neu grŵp o sgipiau tra ar y briffordd yn cael ei</b></p>	<p><b>12. Each skip or group of skips shall while on the highway be</b></p>

<p>farcio, ei warchod a'i oleuo yn unol â'r gofynion canlynol :-</p> <p>(a) Rhaid paentio terfyn pob sgip (hynny yw, ochrau'r sgip sy'n wynebu'r traffig i'r ddau gyfeiriad pan fydd y sgip yn cael ei leoli, fel y crybwyllir yn Amod 3 uchod) yn felyn a chael ei farcio yn unol â gofynion Rheolau (Marcio) Sgipiau Adeiladwyr 1984. Rhaid cadw'r paent a'r marciau yn lân bob amser.</p> <p>(b) Bydd ochrau bob sgip yn dangos enw, cyfeiriad neu enw a rhif ffôn llogwr y sgip, fel y gellir, mewn argyfwng, gysylltu â'r cwmni ar sail 24 awr.</p> <p>(c) Rhaid gwarchod pob sgip a osodir ar y briffordd gan o leiaf 4 conau traffig mewn llinell aros go ar ochr sy'n agos i'r sgip. Lle gosodir 2 sgip neu ragor mewn rhes, fel nad ydynt yn fwy na 2 fedr oddi wrth ei gilydd, gwarchodir y rhes fel pe bai'n un sgip yn unig.</p> <p>(ch) Yn ystod y nos (hynny yw rhwng hanner awr ar ôl machlud haul a hanner awr cyn codiad yr haul), gosodir lamp ambr wrth ymyl neu ynghlwm i bob cornel o'r sgip, neu i gornel rhes y sgip lle mae dau neu fwy o sgipiau wedi ei gosod, heb fod ymhellach na 2 fedr oddi wrth ei gilydd, a hefyd cael eu gosod rhwng y conau traffig. Bydd pob lamp gyda phŵer golau fydd ddim llai na 1 'candela' a bydd yn parhau i oleuo drwy'r nos.</p>	<p>marked, guarded and lit in accordance with the following requirements :-</p> <p>(a) The end of each skip (that is to say, the sides of the skip facing traffic in both directions when the skip is positioned as mentioned in Condition 3 above) shall be painted yellow and shall be marked in accordance with the requirements of the Builders Skips (Marking) Regulations 1984. The painting and the markings shall at all times be kept clean.</p> <p>(b) The sides of each skip shall display the name, address or name and telephone number of the skip hirer, so that, in an emergency, the company may be contacted on a 24 hour basis.</p> <p>(c) Each skip shall be guarded by at least 4 traffic cones placed on the carriageway in an oblique line on the approach side of the skip. Where 2 or more skips are deposited in a row, so that the distance between adjacent skips does not exceed 2 metres, the row shall be guarded as if it were one skip.</p> <p>(d) At night (that is to say between half-an-hour after sunset and half-an-hour before sunrise) an amber lamp shall be placed or attached to each corner of the skip, or the end corners of the row of skips where two or more skips are deposited in a row and the distance between adjacent skips does not exceed 2 metres, and shall also be placed between each cone and the next. Each lamp shall have an illuminated power of not less than 1 candela and shall remain lit throughout the night.</p>
<p><b>13.</b> Ni chaiff yr un sgip, tra bo'n sefyll ar y briffordd gynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy, ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus, neu unrhyw ddeunydd sy'n debygol o buro neu fel arall yn debygol o fod yn niwsans i ddefnyddwyr y briffordd.</p>	<p><b>13.</b> No skip, when standing in the highway, shall contain any inflammable, explosive, noxious or dangerous material or any material which is likely to purify or which otherwise is, or is likely to become a nuisance to users of the highway.</p>
<p><b>14.</b> Ni fydd unrhyw sgip yn cael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel bod ei gynnwys yn disgyn ar y briffordd neu fod yna ddihangfa llwch yn dod o gynnwys y sgip wrth sefyll ar y briffordd.</p>	<p><b>14.</b> No skip shall be used in such a way that any of its contents fall on to the highway or that there is an escape of dust from the contents of the skip when standing in the highway.</p>
<p><b>15.</b> Symudir pob sgip sydd angen ei wagio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mewn unrhyw achos heb fod yn hwyrach na 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei lenwi.</p>	<p><b>15.</b> The skip shall be removed for emptying as soon as practicable, and in any case not later than 2 working days after it has been filled.</p>
<p><b>16.</b> Ni chaiff yr un sgip aros ar y briffordd ar ôl y cyfnod a bennir ar y drwydded. Anfonir anfoneb am y ffi na ellir ad-dalu o £67, ynghyd â £117 ychwanegol (bob mis) ar gyfer pob sgip unigol sydd heb trwydded.</p>	<p><b>16.</b> No skip shall remain on the highway after the period specified on the licence. A invoice for the non-refundable fee of £67 plus an additional £117 (per month) will be sent for each individual un-licensed skip.</p>
<p><b>17.</b> Bydd yr holl ddeunydd a roddir ym mhob sgip gael ei waredu yn gywir, a dylid cadw'r briffordd lle mae'r sgip neu sgipiau wedi cael ei/eu leoli mewn cyflwr glan a thacclus pan ddaw'r caniatâd hwn i ben.</p>	<p><b>17.</b> All materials placed in each skip shall be properly disposed of and the highway where the skip or skips have been deposited shall be left in a clean and tidy condition on the expiration of this permission.</p>
<p><b>18.</b> Gall yr awdurdod priffyrdd neu gwnstabl mewn iwnifform gofyn i'r perchennog y sgip i dynnu neu ail-leoli neu beri i dynnu neu ail-leoli. Gall unrhyw gostau rhesymol sydd yn gysylltiedig â symud neu ail-leoli sgip cael ei adennill oddi wrth berchennog y sgip.</p>	<p><b>18.</b> The highway authority or a constable in uniform may require the owner of the skip to remove or reposition it or cause it to be removed or repositioned. Any expenses reasonably incurred in the removal or repositioning of a skip may be recovered from the owner of the skip.</p>
<p><b>19.</b> Ni ddylid lleoli sgip o fewn 15m o unrhyw gyffordd oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo gan swyddog awdurdodedig y Cyngor. Os bydd yn rhaid lleoli'r sgip o flaen eiddo arall yna dylid wneud pob ymdrech i hysbysu'r person yr effeithir arno.</p>	<p><b>19.</b> No skip shall be positioned less than 15m from a junction unless approved by an authorised officer of the Council. In the event that the skip has to be positioned outside another property, then every effort should be made to notify the affected person.</p>
<p><b>20.</b> Gall Cyngor Gwynedd nodi unrhyw amodau perthnasol eraill sy'n ymwneud â lleoliad y sgip yn ôl yr angen.</p>	<p><b>20.</b> Cyngor Gwynedd may also specify any other relevant conditions relating to the placement of a skip as they see necessary.</p>

